EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

AWST A MEDI 2021

## GAIR GAN Y GWEINIDOG: Y Capsiwl Amser

Rydym wedi byw drwy gyfnod digynsail dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf, a dyma mae'n debyg fu'r ysgogiad i nifer o ysgolion fynd ati i greu capsiwl amser fel cofnod o'r cyfnod a gallwn ddychmygu y bydd masg a diheintydd yn rhai o'r eitemau y byddan nhw'n dewis eu rhoi yn y blwch i gynrychioli cyfnod Covid-19.

Blwch sy'n cael ei gladdu neu ei guddio yw capsiwl amser ac mae dipyn o drafod wedi bod yn Emaus beth yw'r ffordd i wneud hynny mewn ffordd sydd ddim yn gwneud niwed i'r amgylchfyd. Fel arfer byddwn yn dewis pren dros blastic, ond yn yr achos yma, os ydyn ni'n claddu'r capsiwl yn y ddaear, dydyn ni ddim eisiau rhywbeth sy'n mynd i bydru ond rhywbeth sy'n mynd i oroesi a diogelu'r cynnwys am gyfnod o amser.

Y dewis arall ydy cuddio blwch pren rhywle yn adeilad Emaus dan un o ystyllod y llawr neu y tu ôl i garreg yn y mur. Bydd yn rhaid cofio rhoi plac arno wedyn wrth gwrs fel y bydd rhywun yn ei dynnu allan a'i agor mewn blynyddoedd i ddod, a chael rhyw flas ar sut oedd pethau arnom ni yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

I'n helpu ni feddwl ymhellach am gynnwys y Capsiwl, fe fuon ni yn Ysgol Sul y plant a'r bobl ifanc yn edrych ar rannau o ddwy Salm gyfarwydd. Mae Salm 139 yn dechrau gan ddathlu'r ffaith fod Duw gyda ni ac yn gweld pob manylyn dinod o'n diwrnod ni.

> ***1 O ARGLWYDD, rwyt ti'n fy archwilio i,***
> ***ac yn gwybod popeth amdana i.***
> ***2 Ti'n gwybod pryd dw i'n eistedd ac yn codi;***
> ***ti'n gwybod beth sydd ar fy meddwl i o bell.***
> ***3 Ti'n cadw golwg arna i yn teithio ac yn gorffwys;***
> ***yn wir, ti'n gwybod am bopeth dw i'n wneud.***

Down i sylweddoli bod hyd yn oed y diwrnodau mwyaf cyffredin yn cyfrif wrth i ni werthfawrogi rhodd Duw o fywyd a bod yn ymwybodol o'i gariad yn ein hamgylchynu.

Mae Salm 8 yn dechrau gyda'r ymwybyddiaeth o ehangder maith y bydysawd a'r galaethau pell.


> ***3 Wrth edrych allan i'r gofod, a gweld gwaith dy fysedd,***
> ***y lleuad a'r sêr a osodaist yn eu lle,***
> ***4 Beth ydy pobl i ti boeni amdanyn nhw?***
> ***Pam cymryd sylw o un person dynol?***
> ***5 Rwyt wedi ei wneud ond ychydig is na'r bodau nefol,***
> ***ac wedi ei goroni ag ysblander a mawredd!***

Wrth edrych i fyny ar y sêr a'r planedau, sylweddolwn ein bychander ynghanol yr ehangder a hawdd yw i ni deimlo'n ddibwys. Pam fyddai Duw yn sylwi ar wybedyn bach fel fi? Ond mewn gwirionedd, mae Duw wedi ein gwneud ni ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac rydym yn cyfrif ac yn werthfawr yn ei olwg. Mae e'n ein galw ni i bartneriaeth bwysig gydag ef i fod yn gyfrifol am

ofalu am bobl y byd, y bywyd gwyllt ac am y blaned ei hun.

Gyda'n Capsiwl amser, mae angen felly nid yn unig i gofnodi'r hyn sy'n rhyfedd ac yn wahanol am y cyfnod diwethaf yma, ond dathlu hefyd y pethau cyffredin, bob dydd – cofnodi'r hyn da ni'n fwyta, yn ei ddarllen, pa fath o gar sydd gyda ni. Mae 'na ofod hefyd i ni rannu ein gobeithion a'n breuddwydion ar gyfer y dyfodol. Wrth gefnu gobeithio ar gyfnod y pandemig, fel cyd-stiwardiaid â Duw, mae angen i ni afael mewn gweledigaeth ar gyfer fory a gweithio tuag ato gyda'n gilydd yn llawn ffydd gobaith a chariad.

# CAPSIWL AMSER



**Byddem yn croesawu cyfraniadau gan bobl o bob oed i'r capsiwl amser erbyn dydd Sul Medi'r 5ed os gwelwch yn dda :**
***gweinidog.emaus.bangor@gmail.com***

**RHAI SYNIADAU:**

- **500 o eiriau am eich profiadau chi dros y flwyddyn ddiwethaf**
- **Llun o'ch car, eich gardd, eich hoff degan, eich hoff fwyd.**
- **Llyfr da chi wedi'i ddarllen a'i fwynhau neu eich hoff 5 rhaglen deledu**
- **Gweddïau byrion sy'n rhannu teimladau'r foment yn ofidus a/neu yn ddiolchgar**
- **5 peth fyddai'n gwneud y byd yn lle gwell**
- **Rhestr o "10 peth dwi di ddysgu dros gyfnod y Covid"**
- **500 o eiriau – diwrnod cyffredin yn fy hanes yn 2021**

**Neu: mae modd i chi ffilmio eich hun yn siarad am rai o'r pethau yma (5 munud neu lai) a byddwn yn rhoi'r clipiau ar ffon gof.**

*Cerri M Jones*

# OEDFAON AWST

1 Awst: Oedfa undebol Zoom am 10 dan ofal y Parchedig Andrew Lenny, Aberystwyth

8 Awst: Oedfa undebol am 10 ym Merea Newydd
(mae digon o le – does dim angen archebu sedd ymlaen llaw)

15 Awst: Oedfa undebol Zoom am 10 dan ofal y Parchedig Dr Densil Morgan

22 Awst: Oedfa undebol am 10 ym Merea Newydd
(mae digon o le – does dim angen archebu sedd ymlaen llaw)

29 Awst: Oedfa undebol Zoom am 10 dan ofal Miss Aldyth Williams, Treforys,
Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru

8 Awst a 22 Awst: Bydd croeso hefyd i aelodau Emaus ymuno gydag aelodau Berea Newydd mewn gwasanaeth hwyrol am 5.30pm dros y ffôn. Cylchredir y manylion cysylltu mewn da bryd.

# OEDFAON MEDI

5 Medi: Oedfa gymun yn y capel ac ar Zoom dan ofal ein gweinidog

12 Medi: Oedfa yn y capel ac ar Zoom dan ofal ein gweinidog

19 Medi: Oedfa ar Zoom dan ofal pregethwr gwâdd

26 Medi: Oedfa yn y capel ac ar Zoom dan ofal ein gweinidog

***(Bydd y trefniadau'n cael eu haddasu yn nes at yr amser os bydd angen)***

## Er Cof

Rydym yn awyddus i gynorthwyo teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid ers dechrau cyfnod y pandemig ond heb gael cyfle llawn i roi diolch ac i gofio amdanynt y tu allan i gylch y teulu.

Yn benodol rydym yn trafod neilltuo oedfa Sul yn y Capel ac ar Zoom cyn hir i gydgofio am anwyliaid. Y bwriad ydy cael plethiad o ddarlleniadau, emynau a cherddoriaeth a chyfle hefyd i ddarllen enwau y rhai a gollwyd. Mae na groeso i chi gysylltu gyda'r gweinidog neu un o'r swyddogion os oes ganddoch chi enw i'w gynnig ar gyfer yr oedfa arbennig hon.

Rydym hefyd yn annog teuluoedd unigol i gysylltu os y carent i ni eu helpu i drefnu gwasanaeth coffa i aelod o'u teulu yn y Capel (*nid ar y Sul*) gyda'r cyfle iddynt wahodd teulu a ffrindiau i fod yno.

Mae croeso i chi gysylltu gyda'r gweinidog neu un o'r swyddogion os y carech ein cymorth i drefnu gwasanaeth coffa yn unol â'r canllawiau.

## GWAU




*Mae yna ddwylo prysur iawn wedi bod wrthi dros yr wythnosau diwethaf yma. Diolch yn fawr i Myfanwy, un o garedigion yr eglwys am yr ymdrech. Y bwriad oedd eu trosglwyddo yng Nghyfarfod Blynyddol Chwiorydd a Senana Arfon ond ni fydd hwnnw yn cael ei gynnal. Rhaid aros tan fis Medi gan obeithio eu trosglwyddo yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Chwiorydd yn y Tabernacl, Caerdydd ddechrau Medi pan fydd Eleri Lloyd Jones yn trosglwyddo'r awenau i Ruth Davies. Mae ein cerbyd ni yn llawn o'r nwyddau erbyn hyn. Llawer o ddiolch i bawb sydd wedi bod yn gwau.*

Sian Arwel Davies

## DIOLCH

*Hoffem ddiolch o waelod calon*
*i bawb am bob arwydd*
*o gydymdeimlad a dderbyniwyd*
*gan aelodau Emaus*
*yn ein profedigaeth ddiweddar.*
*Mae cefnogaeth cyfeillion*
*a chydnabod yn gysur mawr*
*i ni fel teulu. Diolch yn fawr.*

Rhona ac Eleri Williams




Yng Nghynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru fis Mehefin, cafwyd diweddariad ar Apêl Timothy Richard gan ein hatgoffa fod yr arian yn mynd at waith ffoaduriaid yn Lebanon ac yn arbennig felly addysg plant. Gosodwyd targed o £40,000 ac, o gyrraedd y nod, byddai'r llywodraeth yn cyfrannu punt am bunt. Y casgliad hyd at y gynhadledd oedd £32,750 a rhoddwyd gwahoddiad i eglwysi ac unigolion i gyfrannu cyn diwedd Mehefin er mwyn cyrraedd y nod. Gan nad oedd modd cynnal gweithgareddau codi arian at yr Apêl yn Emaus yn ystod 2020, penderfynwyd anfon rhodd o £800 i'r coffrau ar ran yr eglwys.

## NEWYDDION TRAIDCRAFT

Daeth tymor arall llwyddiannus o werthu nwyddau Traidcraft i ben. Mae'r elw yn caniatáu rhoi rhodd o £150 yr un i Cymorth Cristnogol, BMS, a Traidcraft Exchange. Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n cefnogi, a diolch arbennig i Dilwen am wneud y dosbarthu i gyd. Gobeithiwn gynnal stondin mis Medi yn y festri os bydd canllawiau'r llywodraeth yn caniatáu. - *Catrin*

Diolch i Wesley am drefnu

dwy daith gerdded hyfryd iawn.

Cafodd pawb eu haddysgu

a mwynhau'r gwmnïaeth yn fawr.










**Gwlyddyn Mair y gors,** ***Bog pimpernel***



Clychlys dail eiddew, *Ivy-leaved bellflower*



Sgorpionllys y Gors, *Water forget-me-not*



ar Y Ffordd Rufeinig



ar Lwybr yr Arfordir

## TAITH HANESYDDOL LLANFAIRFECHAN










### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Gwenno Morgan, Ffordd Meirion, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth o Brifysgol Leeds. Efallai y cofiwch iddi gael treulio blwyddyn, fel rhan o'i chwrs, yn astudio yn Texas.

Ym mis Medi bydd Gwenno'n dechrau ar gwrs Meistr yn Goldsmiths, Prifysgol Llundain.





Dr R. Tudur Jones



Dr Densil Morgan - *ar Zoom*

A hithau'n flwyddyn ei ganmlwyddiant, testun y ddarlith eleni oedd y diwinydd a'r ysgolhaig, Dr R. Tudur Jones (1921-1998). Traddodwyd gan y Parch. Dr Densil Morgan a phrin fod neb gwell i wneud hynny, gan iddo nid yn unig eistedd wrth draed y gwron fel myfyriwr ond hefyd, maes o law, gyd-weithio gydag o fel darlithydd ym Mhrifysgol Bangor. Fel Dr Tudur, mae Densil hefyd yn hanesydd ac ysgolhaig Cristnogol o'r radd flaenaf.

Rhannwyd y ddarlith yn dair rhan. Yn gyntaf, amlinellwyd yn fras droeon gyrfa Dr Tudur, o'r dechreuad yn ysgol y Rhyl hyd at ei ddyrchafiad i fod yn Brifathro Coleg Bala-Bangor ac Athro Anrhydeddus yn Adran Diwinyddiaeth Prifysgol Bangor.

Pwysleisiodd Densil ddisgleirdeb ei ysgolheictod a dyfnder ei ddeallusrwydd o athrawiaeth Gristnogol uniongred. Roedd gan Dr Tudur hefyd ddoniau llenyddol amlwg a chyhoeddodd doreth o lyfrau ac erthyglau ar rychwant eang o bynciau diwinyddol mewn Cymraeg cywir, coeth.

Yn ail, soniwyd yn benodol am ei waith fel hanesydd, nid yn unig ar ran yr Annibynwyr ond hefyd ar ran yr Eglwys Gristnogol yng Nghymru yn gyffredinol. Roedd Dr Tudur yn meddu ar y ddawn brin i gyfleu cymeriadau a sefyllfaoedd arbennig i'w ddarllenwyr mewn ffordd ddeheuig a diddorol. Mae ei gyfrolau ar "Ffydd ac Argyfwng Cenedl" (1981) yn ogystal â "Hanes Annibynwyr Cymru" (1966) yn parhau i ddenu darllenwyr hyd heddiw. Eto i gyd, roedd Densil o'r farn mai ei gyfrol ar "Yr Ysbryd Glân" (1972) oedd yr un o dragwyddol werth i'r dyfodol.

Yn ddiwethaf, trowyd at yr ochr wleidyddol a chyhoeddus i fywyd Dr Tudur. Roedd yn genedlaetholwr i'r carn ac yn gefnogwr agored i bob mudiad o blaid diogelu'r iaith Gymraeg. Bu hefyd yn weithgar fel newyddiadurwr a cholofnydd mewn nifer o gylchgronau a phapurau newydd, fel **Barn** a'r **Cymro**. Gwasanaethodd ei enwad fel pregethwr ac arweinydd am ddegawdau ac esgynnodd i gadair Llywydd yr Undeb yn 1986. Llanwodd Dr Tudur sawl swydd o awdurdod a dylanwad yn y byd crefyddol ehangach hefyd gan ennyn parch ac edmygedd gan bawb.

Diolchwyd i'r Dr Densil Morgan gan y Parch Iwan Llywelyn Jones, y gweinidog olaf i gael ei ordeinio gan Dr Tudur ei hun. Roedd yn fraint gael bod yn bresennol ac i gael fy atgoffa am rywun mor amryddawn ac arwyddocaol yn hanes Cristnogaeth Cymraeg yr ugeinfed ganrif. Fel llawer ohonoch rydw i'n cofio Dr Tudur yn dda fel Cristion cadarn ond cariadus a'i bregethu wastad yn adeiladol ac ysbrydoledig. Roedd darlith Densil yn goffadwriaeth deilwng iawn iddo. Mae wedi ei chyhoeddi yn rhifyn Gorffennaf o'r Traethodydd.

*Eleri Lloyd Jones*

# CORNEL POSAU GARETH

## ATEB I BOS GORFFENNAF 2021

## POS CŴN

**18 o gerddwyr**



## POS AWST / MEDI 2021
## POS Y TRAETH

Mae Elis am fynd i'r traeth yn y gwyliau gyda phêl, bwced a rhaw.
Rhaid iddo ddewis un o bob un.




***Gallai Elis ddewis pêl fach, bwced glas a rhaw oren.***
***Sawl dewis sydd gan Elis i gyd?***

- ATEB YN RHIFYN HYDREF -

## SUL YR HINSAWDD 2021

Mae nifer o enwadau Cristnogol yng Nghymru, gan gynnwys Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru, wedi dod ynghyd gydag eraill ar draws ynysoedd Prydain i hybu myfyrdod a gweithgaredd o gwmpas yr argyfwng hinsawdd bresennol. Yn benodol gofynnir i eglwysi benodi un Sul eleni yn Sul yr Hinsawdd a chofrestru hynny cyn Medi 5ed. Mae hyn, wrth gwrs, yn rhan o'r paratoadau ar gyfer COP26, cynhadledd fyd-eang ar newid hinsawdd a gynhelir yng Nglasgow ar ddechrau mis Tachwedd. Diau fyddwn fel eglwys yn clywed mwy am y paratoadau hynny pan fyddwn yn ailymgynnull yn yr Hydref.

Yn y cyfamser, hoffwn dwyn eich sylw at oedfa arbennig fydd yn cael ei chynnal yng Nghadeirlan Glasgow ar Ddydd Sul Medi 5ed am 4yh. Gellir ymuno ar Zoom a cheir mwy o fanylion o'r safle we : www.climatesunday.org

*Eleri Lloyd Jones*

## PRIODAS DDIEMWNT

Cyn bo hir bydd
Kath a Glyn Jones,
Coed y Maes, Penrhosgarnedd yn dathlu 60 mlynedd
o fywyd priodasol.

Priodwyd y ddau
ar Awst 5ed, 1961
yng Nghapel Ainon, Glanadda.
Cynhalwyd y wledd briodas
ym mwyty Robert Roberts's, Stryd Fawr, Bangor,
a threuliwyd eu mis mêl
ar Ynys Manaw.

*Yr oedd Alison Carden, eu nith, yn forwyn briodas fach bump oed ac yn cofio ei bod ar y pryd yn meddwl fod hynny'n 'sbesial' iawn gan eu bod yn cael hedfan yno!*

***Dymuniadau da i'r ddau ohonoch.***



# YN EISIAU

### DOSBARTHWYR

Dan arweiniad ein gweinidog, mae tîm o wirfoddolwyr yn dosbarthu deunydd yn wythnosol i gartrefi aelodau nad ydynt yn gallu ei dderbyn fel arall. Gwerthfawrogir y gwasanaeth hwn yn fawr iawn gan yr aelodau hynny, a charem ddiolch yn fawr i'r dosbarthwyr am eu gwaith.
Erbyn hyn, gwelwn yr angen i ehangu'r tîm er mwyn ymateb i'r galw. Pe byddech yn hapus i argraffu deunydd yn y Capel o dro i dro, neu i rannu deunydd yn eich ardal i ryw hanner dwsin o gartrefi fel rhan o rota, cysylltwch gyda Dilwen, os gwelwch yn dda : (01248) 364665 neu dilwen.emaus.bangor@gmail.com

## RHODDION ARIANNOL AT WAITH YR EGLWYS

Mae'r swyddogion yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi llwyddo i barhau i gyfrannu'n gyson i goffrau'r eglwys, boed trwy drefniant banc, trwy anfon sieciau at Dilwen, neu wrth adael amlenni yng nghyntedd y capel. Os nad ydych yn sicr o sut orau i fynd ati mae croeso i chi gysylltu gyda Dilwen am gyngor:

*dilwen.emaus.bangor@gmail.com*
10 Ffordd Deiniol, Bangor LL57 2UR
Tel: (01248) 364665.

Os ydych am wneud cyfraniad ar-lein i'r banc, enw'r cyfrif perthnasol yw
**Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor**
y cod didoli yw 51-61-28
a rhif y cyfrif yw 77986881
Gellir gwneud sieciau yn daladwy i
Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor.

## Y NEGESYDD

***Mae ein diolch y rhifyn yma eto i Gareth Ffowc Roberts am waith yn casglu, golygu a gwneud yn siwr nad oes camgymeriadau yn mynd trwodd i'r fersiwn terfynol o'r Negesydd***

Dylid gyrru'r holl wybodaeth ar gyfer rhifyn Hydref y Negesydd at Ann a Gareth Roberts
e-bost: garethroberts46@icloud.com
Ffôn: 01248 364049
erbyn Medi 19, fan bellaf.
Neu, os y dymunwch, yn syth i'r Negesydd e-bost : negesydd@btinternet.com

-ooOOOooo-

**Wrth baratoi rota'r golygyddion ar gyfer 2021/22, byddem yn croesawu'r cyfle i ychwanegu rhagor o enwau at y rhestr o wirfoddolwyr.**
**Am ragor o fanylion cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd Gareth Ffowc Roberts, os gwelwch yn dda:**
**e-bost : ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com   Ffôn : 01248 351243**